# Cofnodion

## Cabinet

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Mercher, 10 Ionawr 2024 |
| Amser: | 4.00 pm |
| Bresennol: | Cynghorwyr J Mudd (Cadeirydd), D Davies, D Batrouni, J Clarke, Y Forsey, D Harvey, J Hughes and L Lacey |

1 **Ymddiheuriadau dros Absenoldeb**

Y Cynghorydd Marshall.

2 **Datganiadau o ddiddordeb**

Dim wedi'u derbyn.

3 **Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**

Eitem 4 Adroddiad Monitro Cyllideb a Refeniw Mis Medi: Cyfeiriodd y Cynghorydd Davies at bwynt cywirdeb.  Newid y sylw sy'n nodi bod dim cronfeydd wrth gefn gwario yn Ysgolion Casnewydd i ddweud bod gorwariant o £5.4m wedi bod.

Felly derbyniwyd y Cofnodion yn amodol ar yr uchod.

4 **Cyllideb 2024/25 a Chynllun Ariannol Tymor Canolig (MTFP)**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad cyntaf i gydweithwyr yn y Cabinet a oedd yn ymdrin â chynigion cyllideb ddrafft a chyllideb 2024/25 y Cyngor.

Amlinellodd yr adroddiad y rhagdybiaethau cynllunio allweddol ar gyfer y gyllideb arfaethedig, buddsoddiadau a'r arbedion yr oedd eu hangen i gynhyrchu cyllideb flynyddol gytbwys, ac a oedd hefyd yn cyflawni cyllid cynaliadwy yn y dyfodol i sicrhau bod y Cyngor yn parhau i ddarparu gwasanaethau i drigolion Casnewydd ac yn cyflawni ei flaenoriaethau.

Nododd yr adroddiad hefyd y trefniadau ymgynghori a'r amserlen i gytuno ar gynigion cyllideb derfynol i'w hystyried yng nghyfarfod y Cyngor llawn ddiwedd mis Chwefror.

Dechreuwyd yr ymgynghoriad ar y gyllideb yn hwyrach na'r arfer i sicrhau sicrwydd ar 'setliad grant cynnal refeniw' craidd y Cyngor ac ystyried y bwlch yn y gyllideb.

Mae angen gwneud mwy o waith cyn cytuno ar y cynigion cyllideb derfynol, o ran agweddau ar y setliad ei hun.  Er bod bwlch yng nghyllideb y Cyngor ar gyfer 2024/25, roedd yr Arweinydd yn falch o gadarnhau ei fod yn is na'r adeg hon y llynedd a'r blynyddoedd

blaenorol. Cadarnhaodd yr adroddiad fwlch yn y gyllideb cyn arbedion o £3.8m oherwydd bod cyllid yn cynyddu ar gyfradd is na'r cynnydd mewn costau.

Rhoddodd yr Arweinydd fwy o fanylion am rannau allweddol o'r gyllideb ddrafft i'r Cabinet.

Mae cyllideb y Cyngor yn parhau'n destun cynnydd sylweddol mewn prisiau a chwyddiant ar gyflog a chontractau gofal cymdeithasol, a ysgogir yn bennaf gan y cynnydd sylweddol yn isafswm cyflog y DU ac, yn fwy penodol yng Nghasnewydd, y cyfraddau 'cyflog byw gwirioneddol'. Roedd y cynnydd yn llai na'r disgwyl yn ôl ym mis Chwefror 2023, oherwydd costau ynni sylweddol is ac mae rhywfaint o'r gostyngiad hwnnw wedi'i gadw yn ôl i fuddsoddi mewn cyllideb arian cyfatebol newydd yn erbyn grantiau Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau lleihau carbon.

Y galw ar wasanaethau oedd yr her fwyaf o hyd. Mae cynyddiadau parhaus yn effeithio ar ofal cymdeithasol plant a darpariaeth digartrefedd gyda phroblemau etifeddol Covid a heriau presennol costau byw. Mae'r rhain yn cynrychioli'r risgiau mwyaf i gynaliadwyedd ariannol y Cyngor yn y dyfodol ac mae gwaith i sefydlogi'r rhain i'r graddau mwyaf posibl yn parhau. Cafodd Casnewydd y cynnydd canrannol uchaf yn ei setliad cyllid craidd gan Lywodraeth Cymru, wedi'i yrru gan ffactorau demograffig fel poblogaeth gynyddol. Cynyddodd y cyllid 4.7%, sy'n £13.5m arall o gyllid.

Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar gynnydd o 8.5% yn y Dreth Gyngor;

- Mae'r man cychwyn yn is na bron pob cyngor arall yng Nghymru a'r DU. Mewn termau arian parod, mae'r cynnydd yn llawer is na'r hyn y gallai'r ganran ei awgrymu. Dangosodd yr adroddiad y byddai hyn yn £1.50 i £2.01 yr wythnos ar gyfer y tai hynny yn y bandiau mwyaf cyffredin yng Nghasnewydd ac mae'n parhau'n un o'r cyfraddau Treth Gyngor isaf yng Nghymru a'r DU.

- Mae'r Cyngor yn cefnogi'r rhai sy'n gymwys i gael cymorth ariannol gyda'u bil Treth Gyngor.
  Ni fyddai aelwydydd sy'n dioddef heriau ariannol yn talu'r cynnydd hwn gan fod y Cynllun Gostyngiad y Dreth Gyngor yn dal i'w cefnogi.

- Felly, byddai'r rhai na allent fforddio'r cynnydd hwn yn parhau i gael help i dalu eu Treth Gyngor.
- Dywedodd yr Arweinydd wrth drigolion i edrych y tu hwnt i'r newid canrannol pennawd gan y gallai fod yn gamarweiniol. Roedd y rhai a oedd angen help gyda'u bil yn parhau i gael cymorth. Mae'r cynnydd hefyd yn diogelu gwasanaethau hanfodol i'r rhai mwyaf agored i niwed.

Oherwydd y cynnydd mewn cyllid setliad craidd ac i raddau llai, y cynnydd mewn cyllid Treth Gyngor, mae rhai gwasanaethau yn cael eu diogelu a'u datblygu. Y rhain yw:

- Diogelu'r gyllideb ysgolion, heb unrhyw ofynion i wneud arbedion yng nghyllidebau ysgolion y flwyddyn nesaf. Buddsoddiad o £9.5m yng nghyllidebau'r flwyddyn nesaf a £24m dros gyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) mewn cynyddiadau yng nghostau athrawon a thwf yn nifer y disgyblion ac ysgolion.

- Parhau i gyllido cyllidebau comisiynu gofal cymdeithasol i dalu'r 'cyflog byw' o leiaf i weithwyr. Mae hyn yn rhoi cymorth i'r sector hwn, gan sicrhau bod y rhai mwyaf agored i niwed yn cael eu cefnogi.

- Buddsoddi mewn cyllideb newydd i gyflymu gostyngiad carbon y Cyngor drwy greu arian cyfatebol i'w ddefnyddio ochr yn ochr â chyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y prosiectau hyn.

- Parhau i fuddsoddi mewn cymorth i'r rhai sydd â'r angen mwyaf yn y gymuned. Buddsoddi bron i £400k ar gyfer darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol, £600k ar gyfer darpariaeth digartrefedd a thros £3m mewn cyllidebau gofal cymdeithasol plant ac oedolion i gynyddu darpariaeth.

Mae bwlch yn y gyllideb i'w ddatrys o hyd, ac mae'r adroddiad yn nodi'r arbedion hyn. Ni fyddai'r mwyafrif helaeth yn effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir ac mae'r mwyafrif ohonynt yn cael eu dirprwyo i'w gweithredu gan Benaethiaid Gwasanaeth a Chyfarwyddwyr.

Yn olaf, mae'r rhagolygon cyllid tymor canolig yn ansicr ac yn debygol o fod yn heriol. Ni allai Llywodraeth Cymru ragweld derbyn cynnydd digonol yn ei chyllidebau ei hun ac felly nid oedd yn gallu trosglwyddo hynny i Lywodraeth Leol, y GIG, na gwasanaethau cyhoeddus hanfodol eraill yma yng Nghymru.

-

Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

- Tynnodd y Cynghorydd Davies sylw'r cydweithwyr at y ffaith bod yr adroddiad yn dangos sefyllfa sy'n llawer gwell na'r adeg hon y llynedd.

  Roedd pwysau ariannol chwyddiant, costau staffio cynyddol, prinder llafur a galw cynyddol am wasanaethau yn parhau ac roeddent yn bron i £56m neu 76% o gyfanswm y buddsoddiad y byddai ei angen dros y tair blynedd nesaf.

  Ym maes addysg, mae angen £9.5m ychwanegol i dalu am ddyfarniadau cyflog a chostau rheoli'r nifer cynyddol o ddisgyblion, gyda hyn yn dod i gyfanswm o £24m dros y tair blynedd nesaf.

  Cefnogodd y Cynghorydd Davies yr arbedion cyllideb arfaethedig a chroesawodd yr ymgynghoriad a oedd i fod i gael ei lansio.

- Dywedodd y Cynghorydd Clarke fod Aelodau'r Cabinet a Chynghorwyr hefyd yn drigolion ac yn gorfod gwneud y penderfyniadau cywir i bawb. Mae barn trigolion Casnewydd yn bwysig, ac anogodd y Cynghorydd Clarke drigolion i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Cefnogodd y Cynghorydd Clarke yr adroddiad gan ei bod yn hanfodol bod cyllideb gytbwys yn cael ei chyflawni.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Forsey at oedolion â gofalwyr sy'n heneiddio na allent eu cefnogi a dywedodd fod y Cyngor yno i helpu pobl yn y sefyllfaoedd anodd hyn.

- Diolchodd yr Arweinydd i bob gwasanaeth am ei gefnogaeth i gyflawni cyllideb gytbwys yn ogystal â'r tîm cyllid am ei waith caled wrth baratoi'r adroddiad a'r gyllideb.

**Penderfyniad:**

1. **Cytunodd y Cabinet ar y cynigion drafft canlynol ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd:**
   i) Y cynigion arbedion cyllideb yn Atodiad 2 (tabl cryno) ac Atodiad 10 (cynigion manwl). ii) Y cynnydd o 8.5% yn y Dreth Gyngor, cynnydd wythnosol o £1.50 - £2.01 ar gyfer eiddo ym Mand A i C, y bandiau mwyaf cyffredin yng Nghasnewydd, fel y nodwyd ym mharagraff 3.8. iii) Y

ffioedd a’r taliadau arfaethedig yn Atodiad 5. iv) Y buddsoddiadau cyllideb a ddangoswyd yn Atodiad 1, gan gynnwys y rhai ar gyfer ysgolion.

**2. Cymeradwyodd y Cabinet:**

v) Weithredu'r penderfyniadau dirprwyedig yn Atodiad 3 (tabl cryno) ac Atodiad 11 (cynigion manwl) gan Benaethiaid Gwasanaeth ar unwaith, ar ôl dilyn prosesau gwneud penderfyniadau arferol y Cyngor.

**3. Nododd y Cabinet:**

vi) Y sefyllfa o ran datblygu cyllideb gytbwys ar gyfer 2024/25, gan nodi bod y sefyllfa'n destun adolygiad a diweddariadau parhaus rhwng nawr a chyfarfod y Cabinet ym mis Chwefror, pan gytunir ar y gyllideb derfynol.

vii) Y sefyllfa bresennol wrth ddatblygu 'Cynllun Trawsnewid' i'r Cyngor a sylwadau’r Pennaeth Cyllid ar bwysigrwydd hynny mewn perthynas â'r her gyllideb dymor canolig/hirdymor a chyfrannu at sylfaen ariannol gynaliadwy ar gyfer gwasanaethau.

viii) Mae angen gwaith pellach i adolygu a rheoli effeithiau ariannol rhai risgiau allweddol sy'n deillio o'r setliad drafft ar gyfer 2024/25.

## 5 Adroddiad Refeniw

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a oedd yn esbonio’r rhagolygon presennol ar gyfer cyllideb refeniw’r Cyngor a'r cyfleoedd a'r risgiau ariannol sydd i’w gweld yn niweddariad mis Tachwedd.

Dyma'r trydydd adroddiad monitor refeniw a gyflwynwyd i'r Cabinet y flwyddyn ariannol hon ac adlewyrchodd danwariant o £2.523m, sy'n ostyngiad o £1m ar ffigurau mis Medi. Mae'r newid yn bennaf oherwydd costau uwch mewn perthynas â digartrefedd a llety dros dro.

Roedd y sefyllfa hon yn ystyried y gyllideb wrth gefn a'r tanwariant disgwyliedig yn ystod y flwyddyn yn erbyn cyllidebau ariannu cyfalaf.

Er y rhagwelwyd tanwariant cyffredinol, dylid nodi y rhagwelwyd y byddai gwasanaethau, gyda'i gilydd, yn gorwario £4.7m, ac eithrio ysgolion.

Rhoddodd y diweddariad hwn gadarnhad bod rhai o'r risgiau hysbys, ar ddechrau'r flwyddyn, wedi dod yn ffaith a'u bod yn achosi gorwariant sylweddol, yn enwedig o fewn y Gwasanaethau Plant a Thai. Fel y rhagwelwyd, fodd bynnag, ar hyn o bryd roedd yn bosibl gwrthbwyso gorwariant gwasanaethau gyda'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol a'r tanwariant o fewn ariannu cyfalaf.

Roedd yr amrywiadau allweddol o fewn y sefyllfa gyffredinol yn cynnwys:

(i) Mwy o alw ar draws meysydd gofal cymdeithasol allweddol gan gynnwys lleoliadau y tu allan i’r ardal a brys i blant. Roedd y ddau faes hyn yn unig yn cyfrannu gorwariant o bron i £3.9m i’r sefyllfa gwasanaethau gyffredinol.

(ii) Roedd y cynnydd yn y galw o fewn y gwasanaeth preswyl ac amhreswyl oedolion yn cyfrannu £1.5m hefyd at y sefyllfa gwasanaethau gyffredinol. Fodd bynnag, roedd hyn yn cael ei wrthbwyso gan orgyflawni incwm gofal cymunedol o ganlyniad i nifer cynyddol o ddefnyddwyr yn cyfrannu at eu gofal.

(iii) Roedd pwysau sylweddol yn amlwg o fewn Tai a Chymunedau, mewn perthynas â digartrefedd. Er i'r Cyngor ddyrannu cynnydd sylweddol yng

nghyllideb 2023/24 i fynd i'r afael ag effaith barhaus y gorwariant a gafwyd y llynedd, roedd costau wedi cynyddu ymhellach a rhagwelwyd gorwariant o £2.4m. Roedd y maes hwn wedi profi cynnydd sylweddol mewn costau dros y ddwy flynedd ddiwethaf, yn dilyn nod polisi Llywodraeth Cymru i leihau digartrefedd yn sylweddol. Arweiniodd y polisi hwn at gynnydd digynsail yn y galw am lety dros dro, nad oedd cyfraniadau defnyddwyr gwasanaeth na budd-dal tai yn talu'r costau llawn amdano, gan adael i'r Cyngor ysgwyddo'r gost net.

Nododd yr Arweinydd fod Canghellor Llywodraeth y DU wedi gwneud cyhoeddiad yn ei Ddatganiad yr Hydref ynglŷn â chymorth ariannol o ran Lwfans Tai Lleol.

Mae'r galw am wasanaethau tai a digartrefedd ar lefelau digynsail oherwydd yr argyfwng costau byw, cyni parhaus, ehangu dyletswyddau digartrefedd statudol ac, yn fwyaf diweddar, Proses Lloches Symlach y Swyddfa Gartref.

Roedd galw mawr, ynghyd â chyflenwad isel o lety yn y sector rhent cymdeithasol a phreifat, yn golygu bod y Cyngor yn ddibynnol ar fathau drud o lety dros dro fel lleoliadau gwely a brecwast, gwestai'r stryd fawr a darparwyr llety dros dro arbenigol. Yn ei gyd-destun, y diffyg i deulu ag angen dau wely mewn gwesty oedd £65 y noson neu'r hyn sy'n cyfateb i tua £23k y flwyddyn. Yn ogystal â hyn, roedd gofyn i'r Cyngor gyflogi staff ychwanegol i gyflawni ei ddyletswyddau statudol estynedig ac ar hyn o bryd mae'n cynnal llety gyda diogelwch i bobl ag anghenion cymhleth oherwydd diffyg tai cymorth yn y ddinas.

(iv) Rhagwelwyd tanwariant yn erbyn cyllidebau nad oeddent yn ymwneud â gwasanaethau, yn benodol y cronfeydd wrth gefn cyffredinol ac ariannu cyfalaf. Roedd arbedion yn y meysydd hyn, fel y nodwyd yn yr adroddiad, yn fwy na gwrthbwyso’r gorwariant gwasanaethau net, gan arwain at danwariant cyffredinol i'r Cyngor cyfan.

(v) Roedd diffyg disgwyliedig yn erbyn cyflawni arbedion 2023/24 ac arbedion y flwyddyn flaenorol o dros £1.1m. Y ddau wasanaeth a oedd yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r diffyg oedd y Gwasanaethau Oedolion a Thai a Chymunedau. O fewn Tai a Chymunedau, nid yw wedi bod yn bosibl dangos tystiolaeth o gyflawni'r arbed hwn, yn enwedig o ystyried y gorwariant cyffredinol yn y maes hwn. O fewn y Gwasanaethau Oedolion, er bod rhai cynigion yn profi'n anodd eu cyflawni ar hyn o bryd, y gobaith yn y pen draw oedd y byddai modd cyflawni'r rhain yn llawn.

Gan fod amrywiant ysgolion yn cael ei reoli drwy falansau ysgolion unigol, nid yw’r tanwariant cyffredinol o £2.5m yn cynnwys sefyllfa ysgolion. Mae ysgolion yn rhagweld ar y cyd orwariant yn erbyn cyllideb o £4.6m a fyddai'n arwain at falansau’n gostwng o £14.4m i £9.8m erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Gan ystyried y lefel sylweddol o arbedion y mae angen i ysgolion eu cyflawni yn ystod 2023/24 a lefel y gwariant rheolaidd o fewn y gorwariant o £4.6m (sef tua £2.3m), roedd swyddogion yn parhau i fonitro balansau ysgolion yn agos dros y tymor canolig fel rhan o strategaeth osgoi ac atal diffyg y Cyngor.

Er bod y flwyddyn ariannol yn ei chwarter olaf, mae'r risg y gallai'r sefyllfa waethygu rhwng nawr a mis Mawrth yn parhau. Mae'r risgiau hyn yn ymwneud yn bennaf â gwasanaethau a arweinir gan alw, sy'n gyfnewidiol eu natur ac a allai arwain at gostau yn cynyddu'n gyflym iawn, fel y gwelwyd gan y cynnydd diweddar yn y gorwariant Tai.

O ystyried y risg y gallai'r sefyllfa hon newid, roedd ymdrechion parhaus i liniaru gorwariant o fewn gwasanaethau i greu sefyllfa gwasanaethau gytbwys erbyn diwedd y flwyddyn.

Rhan o'r rheswm dros sicrhau bod tanwariant yn cael ei gyflawni yw oherwydd y cyfyngiadau presennol ar adnoddau cyfalaf a'r Gronfa Trawsnewid. Mae tanwariant yn y gyllideb refeniw yn un ffordd o gynorthwyo gyda'r her hon.

Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Davies at y gorwariant mewn cronfeydd wrth gefn ysgolion a ostyngodd i £4.6m. Roedd risg y gallai rhai ysgolion osod cyllideb ddiffyg, roedd cymorth yn cael ei roi i sicrhau nad oedd hyn yn digwydd. Mae llawer o ysgolion lle mae cronfeydd wrth gefn wedi'u lleihau mewn perygl o osod cyllideb ddiffyg yn y blynyddoedd ariannol nesaf.

- Dywedodd y Cynghorydd Batrouni fod yr adroddiad a'r eitem flaenorol yn dangos bod pobl eisiau gweithio a byw yng Nghasnewydd, gyda phwysau cynyddol ar ysgolion, y gwasanaethau oedolion, a thai yn adlewyrchu'r galw hwnnw.

**Penderfyniad:**

Bod y Cabinet yn

- Nodi'r rhagolygon cyllideb cyffredinol a amlinellwyd yn yr adroddiad hwn, a oedd yn cynnwys gorwariant gwasanaethau, wedi'i wrthbwyso gan danwariant yn erbyn cyllidebau nad oeddent yn ymwneud â gwasanaethau.
- Nodi'r risgiau a nodwyd drwy gydol yr adroddiad ac yn sylwadau'r Pennaeth Cyllid, fel mewn perthynas â materion galw a oedd yn cael eu hwynebu.
- Nodi'r diffyg cyffredinol o ran cyflawni arbedion a dderbyniwyd fel rhan o gyllideb refeniw 2023/24.
- Nodi'r symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn a ragwelwyd.
- Nodi'r sefyllfa gyffredinol mewn perthynas â chyllidebau ysgolion, gan gydnabod y risg y gallai rhai sefyllfaoedd diffyg unigol ddod i'r amlwg erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

6 **Adroddiad Monitro ac Ychwanegiadau Rhaglen Gyfalaf - Tachwedd 2023**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad ar fonitro ac ychwanegiadau'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer mis Tachwedd 2023 i gydweithwyr y Cabinet. Hwn oedd trydydd adroddiad monitro'r flwyddyn ar weithgarwch cyfalaf ac roedd yn rhoi trosolwg o'r rhaglen gyfalaf wedi'i diweddaru, ochr yn ochr â'r sefyllfa alldro a ragwelwyd ym mis Tachwedd eleni. Rhoddodd yr adroddiad y wybodaeth ddiweddaraf am lefel yr hyblygrwydd cyfalaf a oedd ar gael, rhoddodd fanylion yr ychwanegiadau at y rhaglen a nodwyd a cheisiodd gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer yr ychwanegiadau hyn.

Amlinellodd adran gyntaf yr adroddiad y symudiad yn y gyllideb gyfalaf ers yr adroddiad diwethaf a gyflwynwyd i'r Cabinet ym mis Medi.

-

Gwerth net yr ychwanegiadau a'r diwygiadau i'r rhaglen gyfalaf bresennol yn 2023/24 ers hynny oedd £3m, a rhoddwyd dadansoddiad o'r ychwanegiadau hyn yn Atodiad A. Roedd y rhan fwyaf o'r ychwanegiadau newydd yn cael eu hariannu drwy grantiau allanol.

O ganlyniad i'r ychwanegiadau hyn ym mis Tachwedd 2023, y gyllideb bresennol ar gyfer 2023/24 oedd £93.2m erbyn hyn, sy'n sylweddol ac yn heriol i'w gyflawni'n llawn.

-

Amlinellodd yr adroddiad hefyd lefel y llithriad a oedd yn cael ei ragweld yn erbyn y gyllideb ddiwygiedig o £93.2m.
Roedd amrywiant o tua £9.6m yn cael ei ragweld, gyda'r rhan fwyaf ohono o ganlyniad i lithriad, gyda'r balans yn ymwneud â thanwariant net.

Roedd y llithriad a oedd yn cael ei ragweld yn bennaf oherwydd materion a wynebwyd mewn perthynas â llond llaw o gynlluniau mawr, gyda'r llithriad llawn ar gael yn Atodiad B.

Nododd yr adroddiad fod y ffigurau hyn yn destun adolygiad parhaus ac y gallent newid rhwng nawr a diwedd y flwyddyn ariannol.

Ar y cam hwn o'r flwyddyn, gofynnwyd i'r Cabinet nodi lefel y llithriad, gyda chymeradwyaeth yn cael ei cheisio ar ddiwedd y flwyddyn fel rhan o'r adroddiad alldro.

Nododd yr adroddiad hefyd lefel yr hyblygrwydd cyfalaf a oedd ar gael ar hyn o bryd, y gellid ei ddefnyddio i gefnogi cynlluniau newydd a blaenoriaethau a oedd yn dod i'r amlwg.

Roedd hyn bellach yn £8.259m, ac nid oedd unrhyw newidiadau i'r hyblygrwydd ers adroddiad monitro mis Medi.

Er bod lefel yr hyblygrwydd a oedd ar gael yn uwch nag yr oedd flwyddyn yn ôl, nodwyd pe bai ychydig o faterion sylweddol yn codi yna byddai hyn yn cael ei ddefnyddio. Mae'r Cyngor yn gallu ymateb i faterion hanfodol, wrth iddynt ddod i'r amlwg. Roedd hyn yn gofyn am reolaeth dynn a blaenoriaethu clir o'r materion mwyaf dybryd a brys yn unig.

Dylid cymryd unrhyw gyfle i gynyddu'r hyblygrwydd ymhellach, er mwyn ei gwneud yn bosibl sicrhau bod digon o gyllid yn bodoli i ymateb i unrhyw faterion a gododd.

Mae adroddiadau diweddaru rheolaidd yn cynnwys gwybodaeth am gydymffurfiaeth y Cyngor â'i ddangosyddion rheoli materion ariannol a thrysorlys. Mae Atodiad D yn dangos bod y Cyngor wedi cydymffurfio â'i holl ddangosyddion, ar 30 Tachwedd 2023.

Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

- Nododd y Cynghorydd Davies y cyfeiriad at y cyllid grant Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru. Dyrannwyd arian i nifer o ysgolion i wella'r ddarpariaeth, gyda £510,000 yn cael ei ddyrannu i Faes Ebwy i ddisodli ac uwchraddio'r cyfleusterau chwarae a dysgu awyr agored ac uwchraddio rhai o'r toiledau. Fel yr Aelod Cabinet dros Addysg a Blynyddoedd Cynnar, gwelodd y Cynghorydd Davies yr angen i wneud y gwelliannau hyn ac roedd yn falch o'r dyraniad cyllid hwn a fyddai'n cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles yn yr ysgol.

  Dyrannwyd £100,000 i Ysgol Bryn Derw ar gyfer safle Ysgol Feithrin Kimberley a byddai cyfran ohono'n gwella cyfleusterau chwarae awyr agored.

- Diolchodd y Cynghorydd Batrouni i'r Cynghorydd Davies fel llywodraethwr Ysgol Maes Ebwy am wrando ar benaethiaid, athrawon, rhieni a phlant.
- Diolchodd yr Arweinydd i'r tîm cyllid am ei waith ynglŷn â'r adroddiadau a baratowyd ar gyfer y Cabinet.

**Penderfyniad:**

Bod y Cabinet yn

1. Nodi'r sefyllfa alldro gwariant cyfalaf a ragwelwyd ar gyfer 2023/24
2. Nodi'r diwygiadau i'r rhaglen gyfalaf.

3. Nodi'r adnoddau cyfalaf a oedd ar ôl ('hyblygrwydd') a'r defnydd a glustnodwyd o'r adnoddau hynny.
4. Nodi cynnwys y dangosyddion materion ariannol Rheoli Trysorlys, a gynhwyswyd yn yr adroddiad.

7 **Premiymau Treth y Cyngor**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad Premiymau Treth Gyngor sy'n delio â chartrefi gwag hirdymor ac ail gartrefi yng Nghasnewydd a'r posibilrwydd o gyflwyno premiymau Treth Gyngor ar yr eiddo hyn. Roedd yr adroddiadau eraill a ystyriwyd gan y Cabinet heddiw yn tynnu sylw at ganlyniadau'r galw cynyddol am dai a'r prinder stoc tai sydd ar gael.

Mae'r effeithiau yn 'ariannol' ar y costau y mae'r Cyngor yn eu hysgwyddo mewn llety digartrefedd byrdymor, a hefyd yn 'gymdeithasol' i'r unigolion a'r teuluoedd yr effeithir arnynt.

Yn ogystal â diffyg cyffredinol o ran nifer y tai a oedd ar gael, roedd gan Gasnewydd nifer fawr barhaus o eiddo gwag. Byddai premiymau Treth Gyngor, pe byddent yn cael eu cyflwyno, yn annog perchnogion i gymryd camau i adfer eu heiddo i'w defnyddio eto.

Ym mis Tachwedd gofynnwyd i'r Cabinet gytuno y dylid cynnal ymarfer ymgynghori â'r cyhoedd ar gyflwyno premiymau Treth Gyngor a rhoddodd yr adroddiad hwn ganlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw.

Cafwyd 470 o ymatebion i'r ymgynghoriad ac mae'r canfyddiadau'n dangos bod mwy na 75% o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai Cyngor Dinas Casnewydd gymryd camau i annog perchnogion i adfer eu heiddo i'w defnyddio eto: roedd bron i 60% yn cytuno â chyflwyno 'premiwm' i gyflawni hyn.

Er bod llai o ail gartrefi, dylid sicrhau dull gweithredu cyson ar gyfer yr eiddo hyn sy'n cael eu tanddefnyddio. Felly, mae'r adroddiad yn cynnwys argymhellion i fabwysiadu premiymau Treth Gyngor yng Nghasnewydd, ar gyfer ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor.

Roedd y ddeddfwriaeth yn rhoi rhai eithriadau a oedd yn atal premiwm rhag cael ei godi mewn rhai amgylchiadau. Yn dilyn adborth o'r ymgynghoriad ac i fynd i'r afael â phryderon rhanddeiliaid, argymhellwyd rhai eithriadau 'lleol' cyfyngedig ychwanegol.

Pe bai argymhellion yr adroddiad hwn yn cael eu cytuno, byddai'r mater yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor i wneud penderfyniad terfynol. Pe baent yn cael eu cytuno yno, byddent yn cael eu gweithredu ar 1 Ebrill eleni.

Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

- Diolchodd y Cynghorydd Clarke i'r rhai a gymerodd ran yn y broses ymgynghori a chyfeiriodd at yr argyfwng tai ledled y DU, felly byddai premiymau Treth Gyngor yn helpu. Nododd yr ymgynghoriad yr hyn y dylai'r premiwm fod gyda phremiwm o 100% yn derbyn yr ymateb mwyaf cadarnhaol.

- Dywedodd y Cynghorydd Davies fod argyfwng tai, gyda dros naw mil o drigolion ar y gofrestr dai yng Nghasnewydd yn unig. Roedd datgysylltiad wrth ystyried bod 2565 o eiddo gwag o fewn ffiniau Casnewydd. Cefnogodd y Cynghorydd Davies gyflwyno'r cynnig hwn i'r Cyngor llawn a phe bai'n cael ei fabwysiadu, byddai'n rhan o becyn cymorth a ddefnyddir gan Gyngor Dinas Casnewydd i gynyddu argaeledd stoc dai yn y ddinas.

- Dywedodd y Cynghorydd Harvey fod swyddogion yn gweithio'n galed yn chwilio am lety i drigolion a theuluoedd a oedd angen llety brys. Cefnogodd y Cynghorydd Harvey yr adroddiad.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Hughes at faterion tebyg yng Ngogledd Cymru ac roedd o'r farn bod Casnewydd wedi dod i setliad synhwyrol gyda ffigur premiwm ar y pen isaf i annog landlordiaid i wneud rhywbeth i wella'r eiddo hyn i'w defnyddio eto pan oedd eu hangen fwyaf.

**Penderfyniad:**

Ystyriodd y Cabinet ganlyniadau'r ymgynghoriad ac argymhellodd gyflwyno premiymau Treth Gyngor i'r Cyngor yn unol â'r opsiwn a ffefrir yn yr adroddiad.

8 **Adroddiad Asesu Canol Blwyddyn 2023/24**

Rhoddodd yr Arweinydd y wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad gwasanaethau yn erbyn eu cynlluniau gwasanaeth ar gyfer 2023/24.

Y llynedd, lansiodd Cyngor Dinas Casnewydd ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2022-27. Datblygodd pob gwasanaeth ei gynllun gwasanaeth yn amlinellu ei gyfraniad tuag at gyflawni'r Cynllun Corfforaethol a blaenoriaethau strategol y Cyngor.

Mae'r adroddiad hwn yn hunanfyfyrdod ac yn grynodeb o berfformiad y gwasanaethau ar gyfer chwe mis cyntaf y flwyddyn ariannol hon (1 Ebrill i 30 Medi 2023).

Cyflwynodd pob gwasanaeth ei ddiweddariadau i Bwyllgorau Craffu Perfformiad y Cyngor (Y Pwyllgor Craffu Perfformiad Pobl a'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol a Lleoedd).

Cafodd adborth ac argymhellion y Pwyllgorau Craffu Perfformiad eu cynnwys yn yr adroddiad i'r Cabinet ac uwch dîm arwain y Cyngor eu hystyried.

Ar y cyfan, adroddodd y gwasanaethau gynnydd cadarnhaol yn erbyn 37 allan o 43 o amcanion gyda dim ond chwe amcan yn nodi 'Oren' gan ofyn am ddiweddariad gwella.

Roedd 61 (53%) o'r mesurau perfformiad yn cyflawni neu'n llwyddo yn erbyn eu targedau.

Adroddwyd bod 14 (12%) o'r mesurau perfformiad yn brin o fwrw eu targed ac adroddwyd bod 9 (8%) mesur yn Goch ac yn tanberfformio.

Parhaodd y Cabinet i ymrwymo i gefnogi gwasanaethau i wella ar feysydd tanberfformio ond hefyd i ddathlu a chydnabod cyflawniadau gwasanaethau gan ystyried y pwysau yr oedd llawer o wasanaethau yn eu hwynebu.

Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys enghreifftiau o ble roedd gwasanaethau'n gwneud gwahaniaeth i drigolion ac roedd yr astudiaethau achos yn adlewyrchu ymroddiad a gwaith caled staff i gefnogi rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed a difreintiedig yng Nghasnewydd gan barhau i wella'r ddinas.

<u>Sylwadau Aelodau'r Cabinet:</u>

- Diolchodd y Cynghorydd Davies i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad – Pobl a'r swyddogion am y gwaith a wnaed i adolygu'r cynllun gwasanaeth addysg canol blwyddyn yn effeithiol a soniodd am yr uchafbwyntiau a oedd yn werth eu nodi a'u dathlu.

Nid oedd yr un ysgol yng Nghasnewydd yn destun mesurau arbennig ac amlygodd Estyn nifer dda a oedd yn rhagori a gofynnwyd iddynt ysgrifennu adroddiadau arfer gorau.

Cwblhaodd Casnewydd y broses gyffredinol o gyflwyno Prydau Ysgol am Ddim i bob plentyn ysgol gynradd, cyn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru. Ers mis Medi, roedd pob plentyn mewn cyfnodau iau a sylfaen yn gallu cael pryd poeth tra yn yr ysgol.

Diolchodd y Cynghorydd Davies i benaethiaid a staff am y llwyddiannau rhagorol hyn, ynghyd â'r swyddogion a staff Chartwells a weithiodd yn galed i wneud i hyn ddigwydd.

**Penderfyniad:**

Cytunodd y Cabinet ar yr adroddiad asesu canol blwyddyn o berfformiad gwasanaethau.

9 **Cynllun Pobl 2023-2028**

Cyflwynodd yr Arweinydd Gynllun Pobl newydd y Cyngor ar gyfer 2023/2028 i'r Cabinet.

Yn dilyn datblygu'r Cynllun Corfforaethol yn 2022, datblygwyd nifer o gynlluniau hanfodol, fel y Strategaeth Ddigidol a'r flwyddyn nesaf, y Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd.

Byddai'r Cynllun Pobl yn helpu i ddenu, datblygu a chadw'r gweithlu sydd ei angen i gyflawni dyheadau. Y gweithlu yw ased mwyaf gwerthfawr y Cyngor o hyd, ac mae'r cynllun hwn yn anelu at nodi blaenoriaethau pobl.

Dechreuodd y gwaith o ddatblygu themâu'r Cynllun Pobl yng nghanol 2023 drwy ymgysylltu â staff, rheolwyr ac undebau llafur. Daeth pedair thema strategol i'r amlwg drwy ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid, sef:

- **Cynrychiolaeth a Thrawsnewid** - sicrhau bod y gweithlu'n fwy cynrychioliadol o'r ddinas, tra'n galluogi gweithlu trawsnewidiol a blaengar

- **Lles Gweithwyr** – cefnogi lles staff gan gyfrannu at greu amgylchedd gwaith cadarnhaol.

- **Ymgysylltu â Gweithwyr** – datblygu ffyrdd o ymgysylltu â staff, creu ymrwymiad a pherfformiad uchel, ymgorffori gwerthoedd a pharodrwydd i gyflawni ar gyfer dinasyddion.

- **Profiad Gweithwyr** - datblygu fel cyflogwr o ddewis a chefnogi recriwtio a chadw.

Mae'r ddogfen Cynllun Pobl sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad yn amlinellu'r pedair thema hyn a chynllun ar gyfer y gweithlu dros ei gylch bywyd. Mae'r cynllun hefyd yn rhoi mewnwelediad i'r camau cadarnhaol sy'n cefnogi'r gwaith cyflawni, ac yn nodi'r gwaith gyda gweithwyr i ddatblygu gwerthoedd staff newydd a fyddai'n cael eu lansio ochr yn ochr â'r cynllun.

Talodd yr Arweinydd ei theyrnged bersonol ei hun i'r Prif Weithredwr am ei chyfraniad at drawsnewid y Cyngor a nododd ei bod yn arweinydd rhagorol o ran trawsnewid. Diolchodd yr Arweinydd i'r tîm a oedd yn ymwneud â hyn. Roedd yn bwysig i'r diwylliant sefydliadol ac i

brofiad gwaith yr holl weithwyr ar draws y sefydliad cyfan. Manteisiodd yr Arweinydd hefyd ar y cyfle i ddiolch i'r Cynghorydd Batrouni, fel yr Aelod Cabinet dros Drawsnewid Sefydliadol.

Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

- Adleisiodd y Cynghorydd Batrouni ddiolchiadau'r Arweinydd a dywedodd fod y staff yn hanfodol i lwyddiant y ddinas ac yn gwneud gwaith rhagorol. Mae cyfnod anodd o'n blaenau ac mae'r ddogfen hon yn rhan o'r daith i roi'r sgiliau cywir i staff er mwyn iddynt gyflawni i drigolion nawr ac yn y dyfodol.

- Roedd y Cynghorydd Davies yn falch o gefnogi mabwysiadu'r Cynllun Pobl fel dogfen gefnogol lle'r oedd iechyd a lles yn cael blaenoriaeth amlwg. Roedd yn hanfodol nid yn unig bod Cyngor Dinas Casnewydd yn denu unigolion brwdfrydig a medrus iawn a oedd am weithio i Gyngor Dinas Casnewydd, ond yn bwysig hefyd fod y Cyngor yn eu cadw. Wrth symud ymlaen roedd yn bwysig bod y cynllun yn cyflawni'r amcanion hyn, ac roedd yn galonogol gweld bod cynllun gweithredu clir eisoes ar waith.

- Dywedodd y Cynghorydd Hughes fod cadw staff mewn gwasanaethau cymdeithasol yn faes anodd ac roedd am sicrhau staff bod eu lles yn cael ei gymryd o ddifrif, a bod eu gwaith caled yn cael ei werthfawrogi.

**Penderfyniad:**

Adolygodd y Cabinet y Cynllun Pobl a chytunodd ar ei fabwysiadu.

10 **Chwarter 2 2023/24 Diweddariad ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol**

Cyflwynodd yr Arweinydd ddiweddariad ar Gofrestr Risgiau Corfforaethol y Cyngor ar gyfer diwedd Chwarter 2 (1 Mehefin i 30 Medi 2023).

Roedd y Strategaeth Rheoli Risgiau a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn galluogi'r weinyddiaeth a swyddogion i nodi, rheoli a monitro'n effeithiol y risgiau hynny a allai atal cyflawni'r blaenoriaethau strategol ac ymgymryd â dyletswyddau statudol fel awdurdod lleol.

Cyflwynwyd adroddiad risgiau Chwarter 2 i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor ym mis Tachwedd 2023 ac nid oedd angen unrhyw argymhellion nac adborth i'r Cabinet eu hystyried.

Ar ddiwedd Chwarter 2, roedd gan y Cyngor 43 o risgiau wedi'u cofnodi ar draws un ar ddeg o wasanaethau'r Cyngor.

Cafodd y risgiau hynny yr ystyriwyd eu bod yn peri'r risg fwyaf sylweddol wrth gyflawni Cynllun Corfforaethol y Cyngor ac wrth ddarparu ei wasanaethau eu huwchgyfeirio i Gofrestr Risgiau Corfforaethol y Cyngor i'w monitro.

Ar ddiwedd Chwarter 2, cofnodwyd 15 o risgiau yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

- 9 o Risgiau Difrifol (15 i 25).
- 6 o Risgiau Mawr (7 i 14).

O gymharu â chofrestr risgiau corfforaethol Chwarter 1, cynyddodd un sgôr risg (Ystâd Eiddo Cyngor Casnewydd) o 16 i 20 a gwnaeth un sgôr risg, Sefydlogrwydd Darparwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, wella gan leihau o 20 i 16.

Adroddwyd y 14 o risgiau a oedd yn weddill gyda'r un sgôr risg â chwarter un.

Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

- Tynnodd y Cynghorydd Hughes sylw at y gwelliannau o ran y gwendidau yn y sector darparwyr allanol, a oedd yn cael ei effeithio'n fawr gan yr argyfwng costau byw a gwasanaethau. Roedd timau yn recriwtio rheolwyr newydd ac yn ailgynllunio eu strwythurau ac yn cryfhau eu gwydnwch i barhau i ddarparu lefel uchel o wasanaeth i drigolion agored i niwed.

**Penderfyniad:**

Ystyriodd y Cabinet gynnwys diweddariad chwarter 2 ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

11 **Pwysau allanol NCC - Costau Byw**

Roedd yr adroddiad diwethaf a gyflwynwyd gan yr Arweinydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y pwysau allanol yr oedd y Cyngor yn eu hwynebu. Wrth symud i 2024, roedd effaith yr argyfwng costau byw a'r pwysau ar wasanaethau tai a digartrefedd yn parhau i gael ei theimlo. Mae'r diweddariad misol hwn yn bwysig i drafod materion sy'n codi o bwysau allanol ac amlygu cyfleoedd i drigolion.

Roedd cydweithio â phartneriaid a chymunedau yn ystod y cyfnod heriol hwn yn parhau'n hanfodol i gefnogi'r rhai mewn angen.

Gan weithio gyda'r Sefydliad Tegwch Iechyd fel rhanbarth Marmot, roedd y Cabinet yn ymwybodol bod tlodi yn cael effaith eang.

Mae helpu cymunedau ysgolion i ddeall yn well dlodi, ei effaith ar ddysgu a sut y gellir ei leihau neu ei ddileu yn rhan allweddol o Strategaeth Tlodi'r Gwasanaethau Addysg.

Yng Nghasnewydd, mae'r prif reswm dros ddigartrefedd yn parhau oherwydd colli llety rhent ac roedd gan gostau rhent cynyddol y potensial i gynyddu'r galw ar wasanaethau tai a digartrefedd ymhellach.

Croesawyd y cynnydd yng nghap y Lwfans Tai Lleol i'r degfed canradd ar hugain o fis Ebrill 2024 ond gyda'r pwysau ehangach ar y Sector Rhent Preifat yng Nghasnewydd, roedd effaith y newidiadau hyn i'w gweld o hyd.

Manteisiodd yr Arweinydd ar y cyfle i annog trigolion a oedd yn cael anawsterau i gysylltu â'r Cyngor i gael gwybodaeth ac i gael eu cyfeirio at y cyngor a'r cymorth a oedd ar gael; gellid gwneud hyn yn bersonol, dros y ffôn neu drwy fynd i'r tudalennau cymorth a chyngor ar wefan y Cyngor.

Roedd yn galonogol gweld yr Ymgynghorwyr Costau Byw newydd eu penodi yn cydweithio â swyddogion mewnol, gan gynnwys cydweithwyr addysg, ac asiantaethau partner i roi cyngor, arweiniad a chymorth i drigolion ledled y ddinas, gyda digwyddiadau a sioeau teithiol eisoes wedi'u cynllunio ar gyfer 2024.

Er mwyn cefnogi rhai o'r dinasyddion mwyaf agored i niwed yn ystod misoedd y gaeaf, cydweithiodd y Cyngor â phartneriaid i sefydlu rhwydwaith o fannau dros dro y gellid eu defnyddio dan y Protocol Argyfwng Tywydd Garw, gan gynnig lloches i bobl sy'n cysgu ar y stryd.

Parhaodd yr Arweinydd a Chadeirydd Casnewydd yn Un i eirioli dros weithio mewn partneriaeth fel rhywbeth sy'n hanfodol i gefnogi trigolion a busnesau ac unwaith eto, anogwyd unrhyw un a oedd mewn angen i gael gafael ar y cymorth a oedd ar gael. Tynnodd yr Arweinydd sylw hefyd at y cyllid grant a oedd ar gael ar gyfer hybiau cynnes mewn grwpiau cymunedol a dywedodd y gallai'r rhai sydd â diddordeb gysylltu â Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent i gael mwy o wybodaeth.

Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

- Cytunodd y Cynghorydd Harvey gyda'r Arweinydd ei bod yn bwysig adolygu'r adroddiad hwn bob mis a soniodd Harvey am y trigolion a'r teuluoedd hynny sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl oherwydd yr argyfwng costau byw. Diolchodd y Cynghorydd Harvey hefyd i'r staff am eu cymorth i drigolion.

- Diolchodd y Cynghorydd Davies i'r swyddogion o fewn y tîm addysg am ymuno â'r tîm cymunedol i gyflwyno'r sioeau teithiol ar wrthdlodi mewn ysgolion. Croesawyd y dull cydgysylltiedig a oedd yn gwneud gwahaniaeth ac yn parhau. Roedd rhoi cyngor ar fudd-daliadau, cyngor ariannol ynghyd â chymorth ynghylch iwnifform yn ogystal ag asiantaethau eraill yn mynychu gyda chymorth a chyngor ar les yn gwneud gwahaniaeth.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Forsey at bwysau tai ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf fel cynghorydd, roedd wedi derbyn mwy o geisiadau gan drigolion am dai na dros y tair blynedd diwethaf.  Roedd y Cynghorydd Forsey hefyd am ddiolch i'r adran dai a oedd yn cadw teuluoedd yn eu tai drwy ddefnyddio mesurau ataliol i deuluoedd beidio â cholli eu cartrefi.

- Diolchodd y Cynghorydd Clarke i'r tîm digartrefedd a Helen James, y Cydlynydd Cysgu ar y Stryd. Roedd staff yn y gymuned yn ystod oriau mân dros gyfnod y Nadolig yn dosbarthu brecwastau ac yn siarad â phobl ddigartref, gan roi cyngor ac arweiniad. Diolchodd y Cynghorydd Clarke hefyd i'r swyddog am ei waith wrth ddarparu'r Protocol Argyfwng Tywydd Garw. Diolchodd y Cynghorydd Clarke i'r holl dimau o fewn Cyngor Dinas Casnewydd am eu gwaith dros y Nadolig.

- Diolchodd yr Arweinydd i holl gydweithwyr y cabinet am eu cymorth parhaus i'w trigolion.

**Penderfyniad:**

Bod y Cabinet yn ystyried cynnwys yr adroddiad ar weithgarwch y Cyngor i ymateb i'r ffactorau allanol ar gymunedau, busnesau a gwasanaethau cyngor Casnewydd.

12 **Dogen Gryno Un Casnewydd (er gwybodaeth/ymwybyddiaeth)**

Nododd yr Arweinydd ddogfen gryno Casnewydd yn Un sydd wedi'i chynnwys er gwybodaeth i ni.

Mae'r ddogfen yn rhoi diweddariadau gan Bartneriaeth Casnewydd yn Un, fel diweddariadau ar Fwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Gwent, Cynllun Gweithredu Lleol Casnewydd, y Rhwydwaith Lles Integredig a Chymunedau Sy'n Dda i Bobl Hŷn.

Manteisiodd yr Arweinydd ar y cyfle i ddiolch i'r partneriaid am eu cyfraniadau.

13 **Rhaglen Waith**

Hwn oedd yr adroddiad misol rheolaidd ar y Rhaglen Waith.

**Penderfyniad:**

Cytunodd y Cabinet ar y rhaglen waith.